Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Dafydd Elis-Thomas AS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

18 Mehefin 2020

Annwyl Dafydd,

Mae digwyddiadau dros yr wythnosau diwethaf wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen trafodaeth agored am y ffordd y caiff ffigyrau hanesyddol eu cofio mewn mannau cyhoeddus arwyddocaol yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cytuno i gyflawni gwaith ar y mater hwn. Er mwyn deall natur y sefyllfa hon yn well, byddai'n ddefnyddiol i ni gael rhestr o'r holl gerfluniau mewn mannau cyhoeddus.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried pwy yr ydym yn dewis eu hanrhydeddu mewn mannau cyhoeddus. Mae ganddo ddiddordeb mewn sefydlu rhywfaint o egwyddorion arweiniol ar gyfer cyrff cyhoeddus ynghylch sut i lunio barn gytbwys wrth benderfynu a yw'n briodol parhau i arddangos rhai ffigyrau.

Rwy'n gwerthfawrogi bod eich swyddogion wrthi'n gweithio ar hyn o bryd i gefnogi busnesau ac unigolion y mae'r cyfnod o gyfyngiadau symud yn sgil y pandemig COVID-19 wedi effeithio arnynt. Nid wyf am dynnu sylw o'r gwaith pwysig hwn. Fodd bynnag, mae'r angen i gynnal dadl ynghylch y bobl a gynrychiolir yn ein mannau cyhoeddus yn dod yn fater mwyfwy pwysig hefyd.

A allwch roi gwybod inni a oes rhestr, neu fel arall, a fyddwch yn ceisio cael rhestr, neu pa gamau sydd eisoes ar waith i sefydlu rhestr, a chan bwy? Byddaf

hefyd yn ysgrifennu at Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn am unrhyw wybodaeth sydd ganddynt hwy.

Yn gywir,



Helen Mary Jones

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu